



Dyddiad: 20/04/2021

Annwyl bawb

Y gofynion rhoi gwybod am glefydau newydd o 21 Ebrill 2021

Rydym yn ysgrifennu atoch i ddweud am y gofynion newydd o ran rhoi gwybod i'r Llywodraeth am glefydau. Rydym yn eu cyflwyno er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE.

Daw Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE i rym ar 21 Ebrill eleni. Er nad oes rheidrwydd rhoi'r Rheoliad ar waith ym Mhrydain Fawr, mae'r Llywodraeth wedi gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol er mwyn cael parhau i fasnachu â'r UE fel Trydydd Gwlad. Drwy wneud, bydd yn medru parhau i symud anifeiliaid byw, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a chynhyrchion cenhedlu o Brydain Fawr i'r UE ac o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

Mae hyn yn cynnwys y gofyn (yn Atodiad I o Ddeddf Mynediad i'r Undeb) i wneud yr holl glefydau daearol a restrir yn y Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yn glefydau hysbysadwy yn y trydydd gwledydd sy'n allforio anifeiliaid byw i'r UE. Roedd pymtheg o glefydau ar y rhestr hon (deg ohonynt yn endemig) nad oeddynt tan yn awr, yn rhai hysbysadwy neu adroddadwy ym Mhrydain Fawr. Maen nhw bellach wedi'u hychwanegu at ddeddfwriaeth ddomestig.

Bydd pump o'r clefydau hyn yn hysbysadwy os oes amheuaeth glinigol neu pan geir cadarnhad pendant mewn labordy o achos a bydd naw yn hysbysadwy pan fydd achosion wedi'u cadarnhau mewn man dadansoddi (h.y. labordai). Bydd angen hysbysu hefyd am bresenoldeb Varroa mewn gwenyn.

Mae'r gofynion hysbysu'n dibynnu ar y clefyd penodol; ar gyfer rhai, bydd angen rhoi gwybod cyn gynted â phosibl, ar gyfer y lleill bydd adroddiad misol yn ddigon (ac ar gyfer dau glefyd, mae'n dibynnu ar ba genoteip a ganfyddir). Mae'r union fecanweithiau ar gyfer adrodd wrthi'n cael eu pennu a byddwn yn cysylltu â chi i'w hesbonio cyn bo hir ond yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) fydd yn gorfod cael gwybod, o ran y gofyn adrodd ar unwaith a misol. Rhestrir y clefydau a'r trefniadau adrodd yn y tablau isod:

Y clefydau y bydd angen rhoi gwybod i APHA amdanynt

Enw'r clefyd	Rhywogaeth yr effeithir arnynt (rhywogaeth a grŵp o rywogaethau)	Pa mor aml y bydd angen rhoi adroddiad a sut
--------------	--	---

Surra (Trypanosoma evansi)	Teulu'r ceffyl ac anifeiliaid cnoi cil â charnau hollt (Equidae, Artiodactyla)	Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl trwy'r llwybrau arferol ar gyfer rhoi gwybod am glefydau hysbysadwy.
Burkholderia mallei (Llynmeirch yr ysgyfaint - glanders)	Teulu'r ceffyl, geifr a theulu'r camel (Equidae, Capra ssp., Camelidae)	Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl trwy'r llwybrau arferol ar gyfer rhoi gwybod am glefydau hysbysadwy.
Pleuropneumonia heintus y geifr	Defaid, geifr a gaselod (Ovis ssp., Capra ssp., Gazella ssp.)	Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl trwy'r llwybrau arferol ar gyfer rhoi gwybod am glefydau hysbysadwy..
Paratuberculosis	Gwartheg (gan gynnwys byfflo dŵr a beison), defaid, geifr a cheirw (Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp., Ovis ssp., Capra ssp., Camelidae, Cervidae)	Labordai i roi adroddiadau misol, y llwybr i'w gadarnhau
Twymyn Q	Gwartheg (gan gynnwys byfflo dŵr a beison), defaid, geifr a theulu'r camel (Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp., Ovis ssp., Capra ssp., Camelidae)	Labordai i roi gwybod cyn gynted â phosibl, trwy VIC
Rhinotracheitis heintus y gwartheg/ vulvovaginitis crawnog heintus	Gwartheg (gan gynnwys byfflo dŵr a beison) (Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp.)	Labordai i roi adroddiadau misol, y llwybr i'w gadarnhau
	Teulu'r camel a cheirw (Camelidae, Cervidae)	Labordai i roi adroddiadau misol, y llwybr i'w gadarnhau
Dolur rhydd feirysol buchol	Gwartheg (gan gynnwys byfflo dŵr a beison) (Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp.)	Labordai i roi adroddiadau misol, y llwybr i'w gadarnhau ¹ BVD2 – Labordai i roi gwybod cyn gynted â phosibl, trwy VIC
Campylobacteriosis organau cenedlu	Gwartheg (gan gynnwys byfflo dŵr a beison) (Bison ssp., Bos ssp.,	Labordai i roi adroddiadau misol, y llwybr i'w gadarnhau

¹ Yn yr Alban, rhoddir gwybod am BVD1 trwy ScotEID. Nid oes angen camau adrodd pellach

gwartheg	Bubalus ssp.)	
Trichomonosis	Gwartheg (gan gynnwys byfflo dŵr a beison) (Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp.)	Labordai i roi adroddiadau misol, y llwybr i'w gadarnhau
Haint â feirws syndrom anadlu ac atgenhedlu'r moch	Moch (Suidae)	Labordai i roi adroddiadau misol, y llwybr i'w gadarnhau PRRS2 – Labordai i roi gwybod cyn gynted â phosibl, trwy VIC
Mycoplasmosis yr adar (Mycoplasma gallisepticum a M. meleagridis)	Ieir a thyrchw (Gallus gallus, Meleagris gallopavo)	Labordai i roi adroddiadau misol, y llwybr i'w gadarnhau
Chlamydiosis yr adar	Parotiaid (Psittaciformes)	Labordai i roi gwybod cyn gynted â phosibl, trwy VIC
Pla o Varroa spp. (Varroosis)	Apis (gwenyn)	Trwy BeeBase
Clefyd feirws ebola	Primatiaid heblaw pobl	Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl trwy'r llwybrau arferol ar gyfer rhoi gwybod am glefydau hysbysadwy.
Heintiad Batrachochytrium salamandrivorans	Salamandrau (Caudata)	Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl trwy'r llwybrau arferol ar gyfer rhoi gwybod am glefydau hysbysadwy.

Ar gyfer pleuropneumonia heintus y geifr, ebola, llynmeirch yr ysgyfaint (*glanders*), surra (*trypanosoma evansi*) a *Batrachochytrium salamandrivorans*, lle mae angen rhoi gwybod am glefydau cyn gynted â phosibl, yng Nghymru, ffoniwch 0300 303 8268; yn Lloegr, ffoniwch Linell Gymorth Gwasanaethau Gwledig Defra ar 03000 200 301; yn yr Alban, cysylltwch â'r [Field Services Office](#) leol.

Bydd varroa'n cael ei drin yn wahanol a bydd rhaid rhoi gwybod trwy flwch ticio ar BeeBase.

Adroddiadau misol gan labordai

Bydd gofyn rhoi gwybod yn fisol i'r Llywodraeth am saith clefyd (gweler y tabl uchod). Bydd yr adroddiad cyntaf ar gyfer y cyfnod 21 Ebrill i 31 Mai. Wedi hynny, bydd angen adroddiad bob mis ar ddiwedd y mis. Bydd angen yr wybodaeth ganlynol fan leiaf

1. Enw'r organedd neu'r un rydych yn credu sy'n bresennol.
2. Math o prawf
3. Bob mis adrodd: Cyfanswm y profion sydd wedi'u cynnal a nifer y profion positif; sef nifer y cyflwyniadau lle cafodd o leiaf un prawf perthnasol ei gynnal a nifer y cyflwyniadau ag o leiaf un prawf positif
4. Rhywogaeth yr anifail

5. Y mis pan ddaeth y samplau i law'r labordy adrodd.
6. Enw'r person a chyfeiriad y labordy sy'n cyflwyno'r adroddiad.

Byddwn yn cysylltu cyn hir i roi'r templed adrodd ichi a'r drefn ar gyfer cyflwyno'r manylion.

Canlyniadau y mae'n rhaid i labordy roi gwybod amdanynt cyn gynted â phosibl

Yr eithriadau i'r gofyn am adroddiadau misol yw chlamydiosis yr adar (sy'n effeithio ar deulu'r parot yn unig) a thwymyn Q sy'n glefydau sy'n gallu cael eu trosglwyddo i bobl a PRRSV-2 a BVD-2 (a wahaniaethir yn ôl y prawf a ddefnyddir) nad ydynt yn bresennol yn y DU ac y mae angen rhoi gwybod amdanynt, o'r herwydd, cyn gynted â phosibl ar lefel y safle. Yng Nghymru a Lloegr, dylech roi gwybod i Ganolfan Ymchwil Filfeddygol (VIC) leol APHA. Mae rhestr i'w gweld ar y ddolen isod. Cofiwch, rhaid rhoi gwybod i Ganolfannau Ymchwil APHA yn unig:

<https://science.vla.gov.uk/Tests/Statics/HowToContactUs.aspx?SiteName=DST>

Yn yr Alban, cysylltwch â'ch [Field Services Office](#) leol.

Bydd disgwyl ichi roi gwybod am chlamydiosis yr adar (teulu'r parot yn unig), twymyn Q, PRRSV-2 a BVD-2 cyn gynted â phosibl gan roi'r manylion canlynol:

1. Enw'r organedd neu'r un rydych yn credu sy'n bresennol.
2. Math o brawf
3. Cyfeiriad y safle y cafodd y sampl ei chymryd ohono
4. Enw perchennog yr anifail neu'r carcass
5. Enw'r ceidwad os yw'n wahanol i'r perchennog
6. Enw'r milfeddyg ac enw a chyfeiriad y practis
7. Rhywogaeth yr anifail neu'r aderyn y cafodd y sampl ei chymryd ohono
8. Y dyddiad pan ddaeth y sampl i law'r labordy.
9. Enw a chyfeiriad y person sy'n cyflwyno'r adroddiad.

Y canlyniadau y bydd angen rhoi gwybod amdanynt

Clefyd	Rhywogaeth	Canlyniadau i'w hadrodd	Manylion eraill sydd eu hangen
Dolur rhydd feirysol buchol BVD	Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp.	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio, â feirws BVD, gan gynnwys profion Antigen ELISA, PCR, Ynysu'r Feirws, imiwnohistocemeg	Yn achos profion sy'n gwahaniaethu rhwng BVDV-1 a BVDV-2, os gwelir BVDV-2, rhaid rhoi gwybod cyn gynted â phosibl â gwybodaeth ar lefel safle.
Rhinotracheitis Heintus y Gwartheg (IBR)/ vulvovaginitis	Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp.	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio,	

crawnog heintus oherwydd feirws herpes 1 y Gwartheg (BHV-1)		â feirws IBR (BHV-1), gan gynnwys profion PCR, Ynysu feirws, Imiwnohistocemeg, FAT, gE ELISA (sy'n cael ei ddefnyddio ar wartheg sydd wedi'u brechu â brechlyn marciwr byw)	
Haint â feirws syndrom anadlu ac atgenhedlu'r moch (PRRS)	Moch	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio, â feirws PRRS, gan gynnwys profion PRRSV PCR, Ynysu Feirws, imiwnohistocemeg Ar gyfer PRRSV-2 yn unig - IPMA ar gyfer gwrthgyrff PRRSV-2	Yn achos profion sy'n gwahaniaethu rhwng PRRSV-1 a PRRSV-2, os gwelir PRRSV-2, rhaid rhoi gwybod cyn gynted â phosibl â gwybodaeth ar lefel safle.
Trichomonosis	Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp.	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio, â <i>Trichomonas foetus</i> , gan gynnwys profion meithriniad <i>Trichomonas foetus</i>	
Campylobacteriosis organau cenedlu gwartheg	Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp.	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio, â <i>Campylobacter foetus</i> subsp <i>venerealis</i> , gan gynnwys profion: meithriniad <i>Campylobacter foetus</i> subsp <i>venerealis</i>	
Paratuberculosis	Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp., Ovis ssp., Capra ssp., Camelidae, Cervidae	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio, â <i>Mycobacterium avium</i> subsp <i>paratuberculosis</i> , gan gynnwys profion: PCR, Histoleg, prawf rhwbiad ZN, meithriniad hylif, Gwrthgyrff anuniongyrchol ELISA, Prawf Sefydlogi Cyfatebol (Complement Fixation Test)	
Twymyn Q	Bison ssp., Bos ssp., Bubalus ssp., Ovis ssp., Capra ssp.,	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio, â <i>Coxiella burnetii</i> , gan gynnwys	Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl â gwybodaeth ar lefel safle

		profion: staen MZN a PCR	
Mycoplasmosis yr adar	Gallus gallus, Meleagris gallopavo (leir a thyrchw))	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio, â <i>Mycoplasma gallisepticum</i> neu <i>M. Meleagridis</i> , gan gynnwys profion: PCR, DGGE/PCR , meithriniad	
Chlamydiosis yr adar	Teulu'r parot yn unig	Ei ganfod trwy brofion sy'n dangos bod yr anifail neu'r carcass wedi'i heintio, neu fod amheuaeth resymol y gallai fod wedi'i heintio, â <i>Chlamydia psittaci</i> , gan gynnwys profion PCR	Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl â gwybodaeth ar lefel safle

Gallai'r gofynion o ran rhoi gwybod newid dros amser, er enghraifft wrth i'r diwydiant neu'r Llywodraeth weithio at ddileu neu reoli un neu fwy o'r clefydau endemig ar y rhestr.

Byddwn yn rhoi templed ichi cyn hir a rhagor o fanylion ynghylch y drefn adrodd, cyn y bydd angen adroddiadau misol ym mis Mai 2021.

Gofynion adrodd newydd ychwanegol² nad ydynt yn gysylltiedig â'r Rheoliad Iechyd Anifeiliaid

Brucella

Mae'r newid yn y Gorchymyn Milheintiau yn cynnwys ychwanegu cŵn at y rhestr o anifeiliaid y bydd angen rhoi gwybod amdanynt os ceir bod *Brucella* arnynt. Mae hyn yn golygu y bydd angen rhoi adroddiad os ceir *brucellosis* mewn cŵn. Felly, bydd gofyn i labordai roi gwybod i APHA os bydd yn canfod achos positif o *Brucella canis* neu unrhyw rywogaeth arall o *Brucella* mewn sampl oddi wrth gi. Bydd hynny'n cau'r bwch yn y ddeddfwriaeth lle nad oedd angen adrodd ar *Brucella canis* mewn cŵn er bod angen rhoi gwybod pan fyddai da byw wedi'u heintio, sydd ond yn cael eu heintio mewn achosion prin, a hynny fel sgil-heintiad

I roi gwybod am *Brucella canis* yng Nghymru neu Loegr, cysylltwch â Chanolfan Ymchwil Filfeddygol leol APHA. Gweler rhestr ohonynt isod. Cofiwch, rhaid rhoi gwybod i Ganolfannau Ymchwil APHA yn unig. Dylech roi gwybod os ydych yn canfod yr organedd ei hun, neu os ydych yn canfod *brucella canis* trwy seroleg.

<https://science.vla.gov.uk/Tests/Statics/HowToContactUs.aspx?SiteName=DST>

Salmonela

Yn olaf, mae'r newid yn y Gorchymyn Milheintiau yn ychwanegu cŵn at y rhestr o anifeiliaid y bydd angen rhoi gwybod i APHA os ceir *Brucella* arnynt. Ceir adroddiadau gwirfoddol eisoes am *Salmonella* mewn cŵn ac am gysylltiadau â salwch mewn pobl. Er mwyn diogelu iechyd pobl, rhaid rhoi gwybod nawr am bob achos. Mae hynny'n golygu y bydd angen i labordai roi gwybod i APHA am bod achos o *Salmonella* sy'n cael ei ganfod mewn sampl oddi wrth gi.

I roi gwybod am achos o *Salmonella* mewn ci, defnyddiwch y drefn sy'n bod eisoes ar gyfer *Salmonella*. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â: foodbornezoonoses@apha.gov.uk.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffwch fwy o wybodaeth am yr uchod, cysylltwch â Eleanor.Glendenning@defra.gov.uk.

Kind regards,

Eleanor Glendenning